Adnodd 5b.

**Senarios – Pwy sydd mewn perygl?**

Enwch unrhyw bobl ifanc sydd mewn perygl ar-lein o gael eu niweidio.

1



Mae Janie yn 14 oed, mae hi'n defnyddio Instagram yn rheolaidd i bostio lluniau ohoni ei hun. Mae ei phroffil yn dweud beth yw ei henw iawn a'i dyddiad geni, ei hoedran, lle mae hi'n byw, ei hoffter o geffylau a'i holl hoff bethau. Mae ei gosodiadau proffil yn agored i unrhyw un weld ei lluniau.

2



Mae Mike yn 14 oed. Mae wedi bod yn ffrind ar-lein i Karla am chwe wythnos. Mae Karla'n dweud ei bod yn 15 oed ac yn cefnogi Spurs fel Mike. Cafodd ei gyflwyno i Karla gan ferch arall y gwnaeth gyfarfod ar-lein ac mae'n sgwrsio â hi ar-lein, ei henw hi yw Melissa. Nid yw'n adnabod yr un o'r merched all-lein. Mae'r ddwy ferch yn dweud eu bod yn ei ffansio ac eisiau cwrdd ag ef mewn man prydferth lleol.

3



Mae Rhian a Fatima, 12 oed yn defnyddio negeseuon sgwrsio grŵp WhatsApp i sgwrsio â chefnder Keisha, Jay, yn Cyprus. Maen nhw'n anfon lluniau yn ôl ac ymlaen yn awr ac yn y man. Mae Jay yn 15 oed.

4



Bachgen 13 oed yw Owain. Mae wrth ei fodd yn chwarae gemau ar-lein ac mae wedi dechrau cyfeillgarwch ar-lein gyda bachgen arall o'r enw Rhys sy'n byw mewn tref gyfagos. Mae Owain wedi dweud llawer o wybodaeth bersonol amdano'i hun wrth Rhys ac mae'n siarad ag ef bob dydd. Mae Rhys wedi helpu Owain i dwyllo wrth chwarae gemau ar-lein. Mae Rhys wedi gofyn am luniau. Nid oes neb o deulu Owain yn ymwybodol o'r cyfeillgarwch ar-lein hwn.

5



Mae Molly yn 13 oed ac mae'n byw gyda'i gofalwr maeth. Mae hi'n colli ei hen ffrindiau ers iddi symud ysgol ac mae'n defnyddio gwefannau rhwydweithio ar-lein i gadw mewn cysylltiad â phawb. Mae ei gosodiadau preifatrwydd ar agor i bawb ac mae ganddi 2,167 ffrind ar ei rhestr ffrindiau Facebook.

6



Mae A.J yn fachgen 14 oed egnïol ac mae newydd gael ffôn newydd. Cafodd brofiad annymunol o fwlian ar-lein gan ddieithryn roedd yn meddwl oedd yn ffrind iddo. Nawr mae ei osodiadau proffil ar y cyfryngau cymdeithasol ar agor i ffrindiau yn unig (pobl mae hefyd yn eu hadnabod all-lein). Mae'n defnyddio ei ffôn yn bennaf ar gyfer negeseuon testun, gwylio pêl-droed a sgyrsiau grŵp gyda'i ffrindiau.

7



Mae Raisa yn 10 oed. Mae hi'n chwarae gemau ar-lein yn rheolaidd. Mae ei rhieni wedi pennu gosodiadau preifatrwydd ar ei iPad ac maen nhw'n ymwybodol o ba gemau mae hi'n eu chwarae a gyda phwy mae hi'n chwarae.



Hawlfraint Heddlu Gwent 2019
© Gwent Police Copyright 2019